| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| **DYDDIAD:** | 30 IONAWR 2014 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | UWCH SWYDDOG DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (est 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDARIAD AR GYNNYDD A WNAED GYDA DATBLYGIAD AELODAU |

## 1 CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gynnydd a wnaed gyda’r cyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau Etholedig ers eu hethol ym Mai 2013 .

## 2 Y CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU I AELODAU

Mae'r Cynllun Datblygu ar gyfer 2013/2014 a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ac a fabwysiadwyd ym Mai 2013 yn ddogfen sy'n esblygu a bydd yn cael ei diwygio i adlewyrchu anghenion Aelodau Etholedig a'r Awdurdod.

Mae'n cael ei gydnabod bod y misoedd cyntaf ar ôl yr etholiadau wedi bod yn gyfnod dwys iawn ar gyfer Aelodau Etholedig o ran hyfforddiant . Roedd yr hyfforddiant a gynigiwyd yn cynnwys sesiynau ar gyfer Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg (lle bo'n briodol ). Yn ychwanegol mae rhai sesiynau hefyd wedi eu trefnu ar gyfer Cynghorau Bro a Thref ar y Côd Ymddygiad

Mae’r hyfforddiant wedi cael ei ddarparu gan swyddogion a darparwyr allanol (trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) a chostau wedi eu cyfyngu’n bennaf i gostau lluniaeth / hurio ystafelloedd / cyfieithu.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant a nodwyd ar y cynllun datblygu wedi’i gwblhau er bod rhai sesiynau wedi cael eu gohirio oherwydd diffyg niferoedd a bydd y rheini’n cael eu haildrefnu. Mae rhai sesiynau nad oeddent wedi eu cynllunio wedi cael eu cynnwys ar sail ad-hoc yn unol â cheisiadau e.e. trosolwg cyffredinol o brosesau / gweithdrefnau cynllunio i bob Aelod Etholedig.

Roedd cyfanswm o 34 o sesiynau ffurfiol wedi cael eu trefnu ar gyfer Aelodau Etholedig

rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2013. Yn ogystal, roedd nifer o sesiynau unigol hefyd wedi cael eu trefnu ar gyfer Aelodau Etholedig ar y defnydd o anghenion iPads / TGCh (nid yw'r rhain wedi cael eu cofnodi) . Mae manylion yr hyfforddiant a gynigiwyd / a fynychwyd yn cael eu cofnodi ar gofnodion personol Aelodau Etholedig .

Ar ddiwedd pob sesiwn hyfforddi, gofynnir i'r Aelodau Etholedig lenwi taflenni gwerthuso ac mae’r atborth a gasglwyd yn cynorthwyo i sefydlu a yw'r hyfforddiant yn bodloni anghenion yr Aelodau a hefyd i ganfod a oes angen hyfforddiant ychwanegol. Pan fydd sesiynau hyfforddi yn cael eu trefnu gan y Tîm Adnoddau Dynol Corfforaethol, mae’r atborth yn cael ei gofnodi.

Deallir bod nifer y sesiynau a gynigiwyd ar y dechrau yn eithaf beichus, bod yr hyfforddiant ar y cyfan, wedi ei groesawu.

## 3 ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (ADP)

Fel yr adroddwyd eisoes, mae’r Awdurdod yn ymrwymedig i roi cefnogaeth bellach i Aelodau, trwy gyflwyno Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP). Bydd hyn hefyd yn cwrdd â gofynion Siartr Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

Mae’r adolygiadau yn elfen bwysig o Ddatblygiad Aelodau ac yn cyfrannu tuag at ddiweddaru cynlluniau wedi’u teilwra ar gyfer yr Aelodau unigol a Chynllun Datblygu ehangach y Cyngor. Bydd y broses yma hefyd yn helpu i nodi unrhyw gefnogaeth mentora a allai fod o fudd i waith yr Aelodau.

Bwriedir cwblhau’r cyfarfodydd adolygu unigol erbyn diwedd Ionawr. Bydd atborth o’r rhain yn cael ei ddarparu i'r Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol er mwyn gallu mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi unigol ac fel bod modd cynnwys anghenion generig yn y Cynllun Datblygu blynyddol cyffredinol .

**Miriam Williams - Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol**
**Ionawr 2014**